

Ffurflen Flynyddol Cydbwyllgorau Llai yng Nghymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2023

Datganiadau cyfrifyddu 2022-23 ar gyfer:

Enw'r corff:

AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

	Y flwyddyn a ddaeth i ben		Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon
	31 Mawrth 2022 (£)	31 Mawrth 2023 (£)	Dylech dalgrynnu'r holl ffigurau i'r £ agosaf. Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag gan gofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigwr fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.
Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau			
1. Balansau a ddygwyd ymlaen	653,659	421,384	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â llinell 7 y flwyddyn flaenorol.
2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll	298,210	355,682	Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff.
3. (+) Cyfanswm derbyniadau eraill	625,372	1,063,978	Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn y symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a referniw.
4. (-) Costau staff	-431,520	-512,421	Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyfloges a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig, e.e. costau terfynu.
5. (-) Llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf	0	0	Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl).
6. (-) Cyfanswm taliadau eraill	-724,337	-386,104	Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn costau staff (linell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (linell 5).
7. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	421,384	942,520	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) - (4+5+6).
Datganiad o falansau			
8. (+) Dyledwyr	165,666	103,283	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff.
9. (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau	263,179	860,438	Pob cyfrif: Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â'r cysoniad banc.
10. (-) Credydwyr	-7,460	-21,201	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn.
11. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	421,384	942,520	Dylai cyfanswm y balansau fod yn hafal i linell 7 uchod: Nodwch gyfanswm (8+9-10).
12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor	0	0	Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth.
13. Cyfanswm benthyciadau	0	0	Balans cyfalaf dyledus pob benthygiad gan drydydd partiön ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB).

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Pwyllgor, ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, ein bod wedi gwneud y canlynol:

	Cytunwyd?		Mae 'DQ' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:	Cyf y Canllaw i Ymarferwyr
	Do	Naddo*		
<p>1. Rhoi trefniadau ar waith ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> rheolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu. 	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel a ragnodir gan y gyfraith.	6, 12
<p>2. Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredigaeth, ac adolygu ei heffeithiolrwydd.</p>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth.	6, 7
<p>3. Cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Pwyllgor i gynnal ei fusnes neu ar ei sefyllfa ariannol.</p>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny.	6
<p>4. Darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.</p>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â buddiant archwilio cyfrifon y corff yn unol â'r hyn a nodir yn yr hysbysiad o'r archwiliad.	6, 23
<p>5. Cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Pwyllgor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen.</p>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebwr ganddo wrth weithredu'r corff ac ymdrin â hwy'n briodol.	6, 9
<p>6. Cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol.</p>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff.	6, 8
<p>7. Ystyried a oes unrhyw ymgyfreithiad, rhwymedigaethau neu ymrwymadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, yn cael effaith ariannol ar y Pwyllgor a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.</p>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol.	6
<p>8. Cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol.</p>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol.	6, 8, 23

* Ar ddalen ar wahân, rhochw esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb 'naddo' a roddwyd; a disgrifwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

Nodiadau datgelu ychwanegol*

Darperir yr wybodaeth ganlynol i gynorthwyo'r darllynydd i ddeall y datganiadau cyfrifyddu a/neu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

1.

2.

3.

* Dylid cynnwys yma unrhyw ddatgeliadau ychwanegol sy'n angenrheidiol yn nhyb y Cyngor i gynorthwyo'r darllynydd i ddeall y datganiadau cyfrifyddu a/neu'r datganiad llywodraethu blynyddol.

Cymeradwyaeth ac ardystiad y Pwyllgor

Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu a'r datganiad llywodraethu blynyddol yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Ardystiad gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Pwyllgor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.	Cymeradwyaeth gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod:
Llofnod y Swyddog Cyllid Cyfrifol: <i>Stuart</i>	Cyfeirnod cofnod: <i>[Signature]</i>
Enw: <i>STEVE GADD</i>	Enw: <i>DAVE HUGHES</i>
Dyddiad: <i>3/7/23</i>	Dyddiad: <i>23/6/23</i>

Adroddiad archwilio mewnol Blynyddol ar gyfer:

Enw'r corff:

AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Mae archwiliad mewnol y Pwyllgor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2023.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Pwyllgor a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ôl ystyried a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Pwyllgor.

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys **	
1. Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mae adolygiad o ddogfennaeth electronig a systemau ariannol yn cadarnhau bod cyfrifon yn cael eu cynnal yn briodol
2. Bodlonwyd rheoliadau ariannol, ategwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Adolygiad o anfonebau a dogfennau ategol yn cadarnhau bod y broses gymeradwyo yn ei lle ar gyfer gwariant a TAW wedi'i chyfrifo'n gywir.
3. Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mae adolygiad o gofrestr risg a weithredwyd yn ddiweddar yn cadarnhau bod risg a champau gweithredu ategol ar waith i liniaru risgiau.
4. Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Cadarnhaodd yr adolygiad fod y gyllideb yn cael ei monitro'n effeithiol ac yn rheolaidd.
5. Cafodd yr incwm disgwylidig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n brydlon, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Cadarnhaodd adolygiad o'r incwm a dderbyniwyd fod prisiau'n gywir, wedi'u cofnodi'n electronig a bod cyfrif priodol am TAW.
6. Ategwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Cadarnhaodd adolygiad o drafodion arian mân a thystiolaeth ategol fod proses gymeradwyo ar waith a bod TAW yn cael ei chyfrifo lle bo'n briodol.
7. Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Cadarnhaodd adolygiad o slipiau cyflog fod cyflogau, treth, pensiwn a didyniadau Yswiriant Gwladol wedi'u cymhwyso'n briodol.

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys **	
8. Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Cofrestr Asedau yn ei lle ar gyfer y gwasanaeth cyffredinol, sy'n cynnwys asedau AHNE fel rhan o'u cofrestr asedau.
9. Cafodd cysoniadau cyrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Tystiolaeth yng nghofnodion cyllideb yr AHNE a drafodwyd mewn cyfarfodydd pwyllgor.
10. Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u hategu gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Tystiolaeth ar system gyfrifo o dderbyniadau, taliadau, incwm a gwariant. Tystiolaeth yng nghofnodion cyllideb yr AHNE a drafodwyd mewn cyfarfodydd pwyllgor.

Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os oes angen):

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
11. Nodwch y maes risg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Gweler yr Adroddiad Mewnol – dim materion wedi'u nodi
12. Nodwch y maes risg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
13. Nodwch y maes risg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun

* Os atebwyd 'naddo', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

[Mae fy nghanfyddiadau manwl a'm hargymhellion yr wyf yn eu dwyn i sylw'r Pwyllgor wedi'u cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Pwyllgor dyddiedig Mehefin 2023.] * Dileer os nad oes adroddiad wedi'i baratoi.

Cadarnhau archwiliad mewnol

Yr wyf fi/Yr ydym ni yn cadarnhau nad wyf i/ydym ni, fel archwilydd mewnol y Pwyllgor, wedi ymgymryd â swyddogaeth reoli na gweinyddol o fewn y corff (gan gynnwys paratoi'r cyrifon) nac fel aelod o'r corff yn ystod y blynyddoedd ariannol 2021-22 a 2022-23. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

Enw'r unigolyn a gynhallodd yr archwiliad mewnol: **Samantha Davies**

Llofnod yr unigolyn a gynhallodd yr archwiliad mewnol: **S J Davies**

Dyddiad: **16/06/2023**

Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o'r cyfrifon dan adran 13 o'r Ddeddf, pa un a yw unrhyw faterion a ddaw i'm sylw'n rhoi achos i bryderu na chydymffurfiwyd â deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoleiddiol. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 ar gyfer:

AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol

Barn archwilio

Ar sail fy adolygiad, yn fy marn i, nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw sy'n rhoi achos i bryderu, mewn unrhyw ffordd berthnasol, bod yr wybodaeth yr adroddir arni yn y Ffurflen Flynyddol hon:

- heb gael ei pharatoi yn unol ag arferion priodol;
- yn peidio â chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoleiddiol;
- yn anghyson â threfniadau llywodraethu'r Pwyllgor; ac
- nad oes gan y Pwyllgor drefniadau priodol yn eu lle i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau.

Materion eraill sy'n codi ac argymhellion

Nid oes unrhyw faterion pellach nac argymhellion yr wyf yn dymuno'u dwyn i sylw'r Pwyllgor.

Enw'r archwilydd allanol: Matthew Edwards

Llofnod yr archwilydd allanol:

Tros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

Dyddiad: 12 Mawrth 2024